Rhif: WG34980

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Nodyn Cyngor Technegol 1

## Datgymhwyso dros dro baragraff 6.2

Dyddiad cyhoeddi: 10 Mai 2018
Camau i’w cymryd: Ymatebion erbyn 21 Mehefin 2018

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae polisi cynllunio Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gynnal cyflenwad pum mlynedd o dir y gellid ei ddarparu ar gyfer tai, yn seiliedig ar fodloni'r gofynion tai a nodwyd mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (*Polisi Cynllunio Cymru*, paragraff 9.2.3).<br><br>Mae awdurdodau cynllunio heb gyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai yn agored i dderbyn ceisiadau cynllunio tybiannol ar gyfer tai. I sicrhau bod y safleoedd tai mwyaf priodol yn cael eu cyflwyno yn rhan o broses Cynllun Datblygu Lleol systematig a chadarn, mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddatgymhwyso dros dro baragraff 6.2 o Nodyn Cyngor Technegol 1, *Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai* (TAN 1), i dynnu'r cyfeiriad at roi pwysoliad "sylweddol" i'r diffyg cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai fel ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer tai.<br><br>Rydym yn ceisio eich barn ar ba un a ddylid datgymhwyso dros dro baragraff 6.2 o TAN 1. |
| **Sut i ymateb** | A fyddech cystal ag ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy ateb y cwestiynau a nodir yn y ddogfen hon ac yn y ffurflen ymateb. Gellir cyflwyno ymatebion mewn nifer o wahanol ffyrdd:<br><br>Ar-lein:<br>https://beta.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-datgymhwyso-dros-dro-ym-mharagraff-6-2<br><br>E-bost: planconsultations-f@gov.wales<br><br>Post: Ymgynghoriad TAN 1<br>Cangen Polisi Cynllunio<br>Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>Wrth ymateb, nodwch a ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu a ydych chi'n cynrychioli barn sefydliad. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Gellir gweld Nodyn Cyngor Technegol 1, Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai, ar wefan Llywodraeth Cymru:<br><br>https://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan1/?skip=1&lang=cy |

| | |
|---|---|
| **Manylion Cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>E-bost: planconsultations-f@gov.wales<br><br>Rhif ffôn: 03000 256802 / 03000 253290<br><br>neu ysgrifennwch i:<br><br>Ymgynghoriad TAN 1<br>Y Gangen Polisi Cynllunio<br>Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |
| **Diogelu Data** | Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol<br><br>Er mwyn  dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.<br><br>Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth. |

Ni chaiff eich data eu cadw am fwy na thair blynedd

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gweld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cadw amdanoch;
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny;
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data;
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu';
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

Ffôn : 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan : www.ico.gov.uk

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
Cyfeiriad

e-bost : Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

## Beth yw'r prif faterion?

Mae adeiladu tai newydd yn y lleoliadau cywir yn hanfodol er mwyn diwallu'r angen cynyddol am dai ond hefyd mae'n fodd pwysig o ysgogi datblygiad economaidd a chreu swyddi.

Penderfyniadau cynllunio sy'n pennu ble y caiff cartrefi eu hadeiladu, ble y darperir gwasanaethau ac ansawdd yr amgylchedd lleol; maent hefyd yn hybu twf economaidd cynaliadwy a mynediad at leoedd agored. Mae Cynlluniau Datblygu Lleol cyfredol yn allweddol ar gyfer sicrhau y darperir y cartrefi sydd eu hangen. Mae'n rhaid i'r system gynllunio, drwy'r broses Cynllun Datblygu Lleol, ddarparu'r tir sydd ei angen er mwyn gallu adeiladu cartrefi newydd. Mae gofyniad Llywodraeth Cymru i awdurdodau cynllunio lleol ddarparu cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai a monitro'r cyflenwad o'r tir hwn yn briodol, yn elfennau pwysig o ddarparu'r cartrefi hyn.

Nodir y modd o gyfrifo'r cyflenwad o dir ar gyfer tai yn TAN 1 ac mae'n darparu methodoleg resymegol a chyson i'w defnyddio ledled Cymru.

Mae'r gwaith o fonitro'r cyflenwad o dir ar gyfer tai wedi tynnu sylw at ddiffyg yn y tir y gellid ei ddarparu. Ar 1 Ebrill 2017, nid oedd 19 o'r 25 o awdurdodau cynllunio lleol yn gallu dangos bod ganddynt gyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai, gan gynnwys pan oedd Cynlluniau Datblygu Lleol ond newydd eu mabwysiadu. Mae'r sefyllfa hon wedi esgor ar gynnydd yn nifer y ceisiadau cynllunio tybiannol ar gyfer tai.

## Pam yr ydym ni'n cynnal yr ymgynghoriad hwn?

Mae paragraff 6.2 o TAN 1 yn datgan:

"*Dylai ffigur y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai hefyd gael ei drin fel ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer tai. Pan fo'r astudiaeth gyfredol yn dangos bod y cyflenwad tir yn llai na'r cyflenwad 5 mlynedd gofynnol, neu lle nad oedd modd i'r awdurdod cynllunio lleol gynnal astudiaeth ..., dylid rhoi pwyslais sylweddol ar yr angen i gynyddu'r cyflenwad wrth ddelio â cheisiadau cynllunio os yw'r datblygiad fel arall yn cydymffurfio â'r cynllun datblygu a pholisïau cynllunio cenedlaethol.*"

I liniaru rhywfaint o'r pwysau uniongyrchol ar awdurdodau cynllunio lleol wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio tybiannol ar gyfer tai ac i ganiatáu iddynt ganolbwyntio ar baratoi ac adolygu Cynllun Datblygu Lleol, cynigir datgymhwyso dros dro baragraff 6.2 o TAN 1 i dynnu'r cyfeiriad at roi pwysoliad "sylweddol" i'r diffyg cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai fel ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer tai. Byddai datgymhwysiad dros dro baragraff 6.2 yn parhau tra cynhelir adolygiad eang o'r ddarpariaeth o dai drwy'r system gynllunio. Bwriedir cynnal yr adolygiad hwn yr haf hwn.

Dylid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â pholisïau cynllunio cenedlaethol a'r cynllun datblygu. Mae egwyddorion datblygiad cynaliadwy a chreu cymunedau cydlynus felly yn parhau i fod yn gymwys, gan eu bod yn sail i bolisi cynllunio Llywodraeth Cymru a nodir ym *Mholisi Cynllunio Cymru*.

## Beth yw'r camau nesaf ar ôl ymgynghori?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r adolygiad eang o'r ddarpariaeth o dai drwy'r system gynllunio, y disgwylir iddo gael ei gynnal yr haf hwn. Mewn ymateb i'r sefyllfa bresennol o ran y cyflenwad o dir ar gyfer tai, a'r sefyllfa gysylltiedig, sef cyflawni gofynion

tai Cynlluniau Datblygu Lleol, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cynnal ‘cais am dystiolaeth’ a fydd yn edrych ar y rhyngberthynas rhwng proses y Cynllun Datblygu Lleol, mesur y cyflenwad o dir ar gyfer tai a’r camau gweithredu sydd i’w cymryd i fynd i’r afael ag unrhyw ddiffyg mewn modd systematig.

## Cwestiynau’r Ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| **C1** | A ydych chi’n cytuno â’r cynnig i ddatgymhwyso dros dro baragraff 6.2 o TAN 1 i dynnu’r cyfeiriad at roi pwysoliad “sylweddol” i’r diffyg cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai fel ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer tai? |

| | |
|---|---|
| **C2** | A ydych chi o’r farn y bydd datgymhwyso dros dro baragraff 6.2 o TAN 1 yn effeithiol wrth ryddhau’r pwysau ar awdurdodau cynllunio lleol pan fyddant yn ymdrin â cheisiadau cynllunio tybiannol ar gyfer tai? |